Bitesize

# Y mesurau caeth

| | |
|---|---|
| **MEISTR** | Henffych a hawddamor, a chroeso caeth fy mhrentis i fyd cyfriniol kung-hanedd. |
| **PRENTIS** | Yyy…  diolch Meistr! |
| **MEISTR** | Felly, beth am ddechrau gyda'r math cyntaf o fesur cynganeddol, gwranda ar y teitl mawreddog yma: yr Englyn Unodl Union! Y math o bennill caeth mwyaf poblogaidd wyddost ti? Nawr, beth weli di? |
| **PRENTIS** | Mae'r llinell gyntaf mewn englyn yn ddeg sillaf o hyd bob ochr i'r gwant? |
| **MEISTR** | Ydy, fel arfer, mae'n cael ei rannu yn saith sillaf cyn y gwant a tri sillaf ar ei ôl. Ond gall meistr, fel fi, amrywio hyn. |
| **PRENTIS** | Wel… |
| **MEISTR** | Nesaf, llinell dau. Beth weli di? |
| **PRENTIS** | Wel ym... Mae hwn yn chwe sillaf ac yn odli gyda'r gair cyn y gwant llinell un. |
| **MEISTR** | Da iawn! Mae enw gwahanol ar linellau tri a phedwar. Wyddost ti beth? |
| **PRENTIS** | Yyyyy... |
| **MEISTR** | Esgyll! Canolbwyntia! |
| **PRENTIS** | O ia! Sori meistr. |
| **MEISTR** | Nawr, y gwregys melyn, rhaid i ti ddysgu beth yw 'Englyn Penfyr'.  A weli di rywbeth cyfarwydd? |
| **PRENTIS** | Mae'n edrych yn debyg i Englyn Unodl Union, ond… |
| **MEISTR** | Ond… mae hwn yn dal dy elyn mewn syndod, am ei fod yn gorffen yn gynt. |
| **PRENTIS** | Am ei fod yn fyrrach na'r Englyn Unodl Union. |
| **MEISTR** | Cywir, dyna pam mai e'n cael ei enwi'r Englyn Penfyr! Gwregys melyn i ti. |
| **PRENTIS** | Ieee! |


**© Hawlfraint 2016**

| | |
|---|---|
| **MEISTR** | Reit, y gwregys gwyrdd. Erbyn hyn dylet ti wybod bod pob mesur caeth yn cynnwys un o'r pedwar math o gynghanedd ynddyn nhw. |
| **PRENTIS** | Yndw, wrth gwrs Meistr, 'da chi wedi fy nysgu'n dda, do? |
| **MEISTR** | Gobeithio wir! I gael y gwregys gwyrdd, awn ni ymlaen i'r Englyn Milwr. Beth weli di? |
| **PRENTIS** | Mae ei siâp yn wahanol i'r ddau englyn arall, ac... |
| **MEISTR** | ...ac fel mae ei enw'n awgrymu, mae hwn yn barod am y frwydr! Mae'n cynnwys tair llinell sydd yn saith sillaf yr un, dim mwy, na dim llai, ac ar yr un odl. Fel hyn. Haaai–iaa. |
| **PRENTIS** | Mae hwn i weld yn hawdd! |
| **MEISTR** | Ydy! Mae'n hynod o effeithiol pan dw i, y Meistr, yn defnyddio technegau, tywyll kung-hanedd. Gawn ni weld pa mor hawdd yw e nawr, brentis! Beth am y gwregys glas? |
| **PRENTIS** | Barod Meistr! |
| **MEISTR** | Er mwyn meistroli'r mesurau caeth rhaid cael cynghanedd! Mae pedwar math i'w gael! I ennill dy wregys, cer drwy'r pedwar nawr. |
| **PRENTIS** | Llusg, odl fewnol yn llusgo yn y llinell.<br>Traws, neidio ar draws cytseiniaid ar ddechrau rhan dau heb orfod eu hateb.<br>Croes, ateb pob cytsain wrth groesi o ran un i ran dau y llinell.<br>Sain, cynghanedd sy'n cyfuno odl ac ateb cytseiniaid! |
| **MEISTR** | Da iawn ti, mae'n amlwg dy fod wedi cael y Meistr gorau i ddysgu hyn! Rwyt ti nawr wedi graddio ar ris cyntaf byd cyfriniol kung-hanedd! Defnyddia dy bwerau yn ddoeth! |


© Hawlfraint 2016